# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Ebrill 2024

Amser: 13.30 - 14.20

Gellir gwylio’r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13867

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o’r Senedd: | Alun Davies AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Carolyn Thomas AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i ethol Cadeirydd dros dro ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor

Cafwyd enwebiad ar gyfer Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22, a chytunodd y Pwyllgor ar yr enwebiad. Gwnaeth y Pwyllgor ethol Alun Davies AS yn Gadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod hwn.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Huw Irranca-Davies ac Adam Price. Croesawodd y Pwyllgor Carolyn Thomas, a oedd yn dirprwyo ar ran Huw Irranca-Davies.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(6)466 – Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)470 – Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(6)473 – Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 4.1 SL(6)461 – Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 5.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Grwpiau Rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd mewn perthynas â chyfarfod y canlynol – Cyllid: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol.

### 5.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol etc.) 2024 Rheoliadau 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

### 5.3 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) (Rhif 2) 2024

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Datganoli plismona

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip.

### 6.2 Gohebiaeth â'r Pwyllgor Busnes: Adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â'r Pwyllgor Busnes.

### 6.3 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad

**Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio.

**6.4 Gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, at Gadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi: Craffu ar Fframweithiau Cyffredin**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, at Gadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi.

**6.5 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-2025**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid, a chytunodd yr Aelodau i drafod ymateb drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**6.6 Gohebiaeth gan Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at Gadeirydd Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi: Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at Gadeirydd Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi.

**6.7 Datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Diwygiadau i ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU i gefnogi sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

### 6.8 Gohebiaeth yn ymwneud â chanslo pumed cyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Senedd yr Alban, a'r Pwyllgor hwn, at Gyd-Gadeiryddion Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE.

### 6.9 Gohebiaeth ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio.

### 6.10 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, a chytunodd i drafod adroddiad drafft yn ystod ei gyfarfod nesaf.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, a chytunodd i drafod adroddiad drafft yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

## 10 Ymchwiliad gan Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi: Llywodraethu'r Undeb: Ymgynghori, Cydweithio a Chydsyniad Deddfwriaethol – Trafod y cyflwyniad drafft

Cytunodd y Pwyllgor i ohirio’r eitem hon tan ei gyfarfod nesaf.

## 11 Blaenragalen waith

Trafododd y Pwyllgor y broses o flaengynllunio gwaith, a chytunodd yr Aelodau i drafod Blaenraglen Waith mewn cyfarfod yn y dyfodol.